# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ**

**Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2018

Amser: 08.30 - 09.22

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 7 Chwefror 2018**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

# 4 Rheolau Sefydlog

## 4.1 Adran 116C – Pŵer i ychwanegu trethi datganoledig newydd

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio trafodaethau ar y papur tra bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i thrafodaethau gyda Thrysorlys y DU.  Cytunodd Arweinydd y Tŷ y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o amser i ymgynghori â'r Pwyllgor

Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol cyn dod i benderfyniad ar y weithdrefn.

## 5 Y Pwyllgor Busnes

### 5.1 Adolygiad o Gwestiynau Llafar y Cynulliad - ymateb gan y Grŵp Llafur

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur a gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth lunio nodyn o drafodaethau a meysydd posibl i gytuno arnynt erbyn yr wythnos nesaf.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod adolygiad ehangach gyda'u grwpiau.

### 5.2 Papur i'w nodi - Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Nododd y Rheolwyr Busnes y papur, yng nghyd-destun trafodaethau ar eitem 5.1.

## Unrhyw fater arall

### Mandy Jones

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai Mandy Jones yn cael cynnig lle ar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a bod cynnig i'r perwyl hwnnw yn cael ei ychwanegu at agenda'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.